

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Diweddariad Covid 19** – diolch am bob cydweithrediad wrth ymateb i her y coronafeirws. Mae achosion positif yn parhau i effeithio ar yr ysgol yn achlysurol. Rydym yn parhau i ddilyn canllawiau glanweithdra ac yn cadw plant yn eu swigod blwyddyn drwy gydol y diwrnod ysgol. Hoffwn eich atgoffa na ddylech ddanfôn eich plentyn i'r ysgol os oes ganddynt unrhyw symptomau coronafeirws.

### **Cofiwch;**

Os oes gennych chi unrhyw rai o **symptomau Corona feirws** (tymheredd uchel, peswch cyson newydd, colli blas neu arogl – neu newid yn y synhwyrau hynny), dylech hunanynysu gartref a **chael prawf**. Ni ddylech fynd i feddygfa, fferyllfa nac ysbyty. Mae hunanynysu yn berthnasol i oedolion a phlant o bob oed.

**Cyrraedd yr ysgol ar amser** – diolch am bob cydweithrediad gyda gollwng eich plant ger yr ysgol a'u casglu ar ddiwedd dydd. **Mae ambell deulu yn hwyr yn goson – bron pob dydd!** Gofynnir yn garedig i chi addasu eich trefniadau yn y bore er mwyn sicrhau fod eich plentyn wedi cyrraedd y dosbarth cyn 9 o'r gloch.

**Dŵr** – rydym yn annog disgyblion i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol bob dydd. Mae modd ail lenwi'r poteli yn yr ysgol os oes angen.

**Cyngerdd Nadolig** – yn sgîl cyfyngiadau Covid-19 ac asesiad risg mi fyddwn yn trefnu recordiad o'r plant yn perfformio eitemau Nadoligaidd yn yr ysgol unwaith eto eleni. Rydym am osgoi trefnu digwyddiad torfol sy'n annog nifer fawr o bobl i ymgasglu mewn un lle gyda'i gilydd a chynyddu'r risg o ledu'r feirws. Yn wahanol i llynedd mae modd i ddisgyblion ganu bellach o fewn eu swigod blwyddyn. Mi fydd holl fwrlwm paratoi eitemau, dysgu caneuon, actio a gwisgoedd yn parhau. Mi fyddwn yn recordio'r eitemau ar y llwyfan yn neuadd yr ysgol yn ystod mis Rhagfyr ac yn rhannu'r recordiad gyda chi cyn ddiwedd y tymor. Mi fydd y disgyblion yn parhau i fod yn eu swigod blwyddyn. Rhagor o fanylion i ddilyn.

**Plant mewn angen ac ymgyrch Al Hughes BBC Radio Cymru** – diolch am bob cymorth eto eleni. Mae'r plant a'r staff wedi bod yn cerdded milltir yn ddyddiol er mwyn cefnogi'r ymgyrch.

**Goleuo'r Goeden Nadolig yn y dref** – rydym wedi derbyn gwahoddiad i ddisgyblion Blwyddyn 2 i ganu ychydig o ganeuon Nadoligaidd yn y dref ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 4<sup>ydd</sup> am 4 o'r gloch (tua 10 munud) gobeithio y bydd modd i chi gefnogi'r digwyddiad hwn – rhagor o fanylion i ddilyn.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

@YsgolGymraeg  
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost  
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Covid Update 19** - thank you for all your co-operation in responding to the challenge of the coronavirus. Positive cases continue to affect the school occasionally. We continue to follow hygiene guidelines and keep children in their year bubbles throughout the school day. I would like to remind you that you should not send your child to school if they have any symptoms of coronavirus.

**Please remember;**

*If you have any of the symptoms of coronavirus (high temperature, constant new cough, loss of taste or smell - or a change in those senses), you should isolate yourself at home and have a test. You should not go to a surgery, pharmacy or hospital. Self-isolation applies to adults and children of all ages.*

**Arriving at school on time** - thank you for all your co-operation with bringing your children to school in the morning and collecting them at the end of the day. **A few families are late - almost every day!** Please adjust your morning arrangements to ensure that your child arrives in class before 9 o'clock.

**Water** - we encourage pupils to bring a bottle of water to school every day. The bottles can be re-filled at school if required.

**Christmas Concert** - due to Covid-19 restrictions and a risk assessment we will be arranging a recording of the children performing Christmas items at school again this year. We want to avoid organising a mass event that encourages large numbers of people to congregate in one place and increase the risk of spreading the virus. Unlike last year, pupils can now sing within their year bubbles. All the excitement of preparing items, learning songs, acting and costumes will continue. We will be recording the items on stage in the school hall during December and sharing the recording with you before the end of term - Children will continue to be in their class bubbles.

**Children in need and BBC Radio Cymru's Al Hughes campaign** - thank you for all your help again this year. The children and staff have been walking miles daily to support the campaign.

**Lighting the Christmas Tree in town** - we have received an invitation for Year 2 pupils to sing a few Christmas songs in town on Saturday, December 4<sup>th</sup> at 4 o'clock (about 10 minutes) and hope you will be able to support us at this event - more details to follow.

**If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately.**

**R C Williams**  
**Headteacher**  
**19/11/2021**